

Sul Heddwch

Darllen: Colosiaid 3:15

Yr hyn y mae Iesu'n ei ddweud yn y Bregeth ar y Mynydd yw 'fel hyn y mae ceisio byw'. Mae stori am fachgen bach teirblwydd oed yn India a grwydrodd o'i gartref ac a fabwysiadwyd gan haid o fleiddiaid. Ar ôl degawd gyda'r anifeiliaid fe'i darganfuwyd a'i ddychwelyd at ei deulu. Ond bu farw gan na allai ddygymod â bwyd y teulu. Dyma ein stori o hyd. Rydyn ni wedi hen arfer byw'r bywyd cyntefig, sy'n golygu ein bod yn dal i gystadlu â'n gilydd, treisio a lladd ein gilydd, a byw i ni'n hunain. Dyma'r bywyd sy'n naturiol i ni, ac felly mae delfrydau ac egwyddorion Iesu yn ei bregeth yn gwbl estron i ni – elfennau cymharol ddieithr i ni ydi dangos addfwynder, trugarhau, maddau a charu ein gilydd. Pwrpas pregeth Iesu oedd ceisio'n trawsffurfio ar lun a delw Duw er mwyn i ni fyw'r bywyd helaethach y soniai amdano. Nid bywyd hawdd mohono; mae'n rhaid i ni ymdrechu'n galed i'w fyw; ac fe all fod yn fywyd peryglus iawn am ei fod yn gwrthdaro â gwerthoedd y byd. Profodd Iesu yn ei fywyd ei hun pa mor anodd a pheryglus oedd y bywyd hwn gan iddo orfod wynebu artaith y groes.

A dyma ddod â ni at y tangnefeddwyr (Mathew 5:9). Petaem yn crynhoi ynghyd yr holl ddelfrydau y mae Iesu eisoes wedi'u crybwyll yn adnodau'r Gwynfydau, a'u rhoi i gyd mewn un person, byddem wedi creu tangnefeddwr. Mae'n rhaid edrych yn ofalus ar y gair 'tangnefeddwyr' am ei fod yn golygu, nid y rhai sy'n *caru* tangnefedd, ond y rhai sy'n *wneuthurwyr* tangnefedd. Nid sôn am y person sy'n byw bywyd heddychlun ac yn mynd allan o'i ffordd i beidio â chweryla a chodi twrw a wneir yn yr adnod hon. Yr hyn a geir yma yw'r person sy'n barod i weithredu er mwyn creu tangnefedd. Nid yw trin a thrafod, a siarad am dangnefedd a heddwch yn ddigon. Mor hawdd ydi trafod yr angen am heddwch mewn rhannau eraill o'r byd, ac anghydfod i'w gael dan ein trwynau o fewn yn ein cymunedau ein hunain. Pa werth sydd mewn trafod

heddwch a thangnefedd byd pan fo pobl yn ein heglwysi yn ei chael hi'n anodd cyd-fyw a chydweithio?

Dim ond mewn cyd-destun ysbrydol, personol y gellir ystyried yr adnod hon. Hynny yw, gwyn fyd yr unigolyn, sy'n creu tangnefedd, yn ei fywyd ei hun. Mae yna densiynau mewnol rhwng y da a'r drwg ym mhob un ohonom, a chawn ein tynnu i'r ddau gyfeiriad yn aml. Felly, boed bendith ar yr hwn sydd wedi darganfod yr heddwch mewnol am fod y frwydr fewnol wedi'i hennill. Ond mae ystyr lawnach i'r adnod, sef bod angen ceisio dod i berthynas gymodlon â phawb. Gwyddom am unigolion sy'n llawn atgasedd ac sydd bob amser yn barod i gweryla, bod hwnnw'n fater o godi cweryl â phobl eraill neu ymyrryd yng nghweryl pobl eraill. Mae bryd y bobl hyn ar godi twrw. Fe'u ceir ym mhob cymdeithas, a hyd yn oed yng nghymdeithas yr Eglwys. Ond diolch i Dduw, mae yna hefyd bobl sy'n awyddus i fyw egwyddorion y bywyd Cristnogol, pobl sy'n gwrthod rhoi lle i chwerwder, ac yn barod i godi pontydd a gwella'r clwyfau. Gelwir y rhain yn blant i Dduw.

Myfyrdod pellach:

Sut berson ydych chi? Un sy'n barod i weithredu tangnefedd?

Ai arwydd o wendid ydi person sy'n caru tangnefedd?